Cenn@d

19 Awst 2026

Rhifyn 286

WYTHNOSOLYN CRISTNOGOL CYMRAEG

a noddir gan Eglwys Bresbyteraidd Cymru ac Undeb Bedyddwyr Cymru

# Pigion Eisteddfod y Garreg Las

Unwaith eto, fe heidiodd y tyrfaoedd i'r Eisteddfod Genedlaethol, a hynny, eleni, i ogledd sir Benfro a maes Eisteddfod y Garreg Las, ar 1–8 Awst. Ddechrau'r wythnos gwelwyd un o'r nosweithiau prysuraf erioed ar Lwyfan y Maes, wrth groesawu'r Super Furry Animals i gyflwyno set Gymraeg o rai o'u caneuon eiconig.

Cafwyd cystadlu, dathlu a mwynhau ynghanol y cannoedd o ddigwyddiadau a drefnwyd mewn amryw o leoliadau ar draws y maes eang, gan gynnwys y Pentref Llên, oedd yn ddarpariaeth newydd ar gyfer eleni.

Yn yr un modd bu pabell tystiolaeth yr eglwysi, sef pabell wedi ei threfnu gan Gytûn, yn gyfrwng i estyn croeso i'r miloedd o ymwelwyr wnaeth droi i mewn am baned a sgwrs. Yn ôl yr arfer cynhaliwyd oedfa ddyddiol yn y babell am 11 o'r gloch, yn cael ei harwain gan gynrychiolwyr o blith yr eglwysi lleol. Datblygiad newydd ar gyfer eleni oedd cynnal oedfa ddyddiol arall, a hynny am 12 o'r gloch, sef gwasanaeth cymun, wedi ei drefnu gan Esgobaeth Tyddewi, oedd wedi archebu uned ychwanegol wrth ein hymyl, er mwyn cynnig y ddarpariaeth hon i Eisteddfodwyr.

Braf hefyd oedd gweld cynulliad teilwng yn y Pafiliwn ar y bore Sul ar gyfer oedfa'r eisteddfod, dan arweiniad nifer o weinidogion a lleygwyr y fro, a chorau a phartion o ysgolion Sul yn cyflwyno eitemau ar y llwyfan. I lawer, bu'r Gymanfa yn y Pafiliwn ar y nos Sul yn brofiad



*Yr oedfa yn y Pafiliwn ar y bore Sul*




*Lansio ymgyrch Cymorth Cristnogol gyda rhai o arweinwyr yr eglwysi*



*Y rhai a gymerodd ran yng nghyfarfod Y Beder Ifengyl*

Pigion o'r Eisteddfod
**Tudalennau 1-3**

Gair o Gydymdeimlad
**Tudalen 3**

Myfyrio ar emynau Ann Griffiths
**Tudalen 4**

gwefreiddiol, gyda'r arweinydd, Daniel Rees, yn gwneud cryn argraff gyda'i gyflwyno hwyliog a diffuant, a Chôr yr Eisteddfod yn arwain y mawl.

Bu bwrlwm ym Mhabell yr Eglwysi gydol yr wythnos, a braf oedd cael cwmni Cymorth Cristnogol, Cymdeithas y Beibl, A Rocha, Cyngor yr Ysgolion Sul a Golau Gras i arddangos gyda ni. Cafwyd cyfle i lansio albwm cerddorol newydd, sef *Goleuni*, wedi ei drefnu gan Undeb yr Annibynwyr Cymraeg. Croesawyd y Parch. Athro John Tudno Williams atom hefyd i sôn am ei gyfrol ddiweddaraf, *Cydymaith i'r Testament Newydd Cymraeg*. Roedd yna ddarpariaeth ar gyfer y plant, gan gynnwys posau, gemau a digon o waith lliwio a chrefft. Roedd Cyhoeddiadau'r Gair yno hefyd gyda'u stondin lyfrau, a braf oedd gweld ambell lyfr newydd yn eu plith. Lansiwyd cyfrol o waith Euros Jones Evans, sef *Ei Ddilyn Wnaf*, sy'n cynnig arweiniad i'r sawl sydd am gael ei dderbyn yn aelod o eglwys Iesu Grist.

Cynhaliwyd dau gyfarfod gan Gymorth Cristnogol hefyd i lansio'u hymgyrchoedd diwedaraf, a braf oedd cael croesawu Mari McNeill a'i chyd-weithwyr i wneud hynny. Galwodd Eurfyl Lewis i mewn i rannu ychydig am y cylchgrawn *Cristion*, gan annog bawb i danysgrifio iddo. Ac ar 6 Awst cafwyd oedfa fer gan Owain Llyr Evans, yn atgoffa pawb o'r hyn a ddigwyddodd 81 mlynedd yn ôl yn Hiroshima, a deisyf am heddwch yn ein byd ni heddiw.

Ymhlith y pigion cerddorol ar y stondin yr oedd cyflwyniad gan Beti a Siân o Perlau Taf gynt, Alwyn Daniels yn canu ei gân ar y gitâr gyda chriw o aelodau, yn ogystal â Meilyr Tomos, a fu'n cyfeilio ar yr organ i'n diddanu dros baned. Elfen bwysig o'r stondin yw'r baned, ac fe fu cryn fynd ar y te a'r coffi gydol yr wythnos.

Eleni roedd Cytûn wedi trefnu dau sesiwn ym Mhabell y Cymdeithasau. Roedd y cyntaf ohonynt ar y dydd Iau, sef cyfarfod i lansio *Y Beder Ifengyl*, cyfieithiad llafar Lyn Lewis Dafis o'r pedair efengyl, a hynny yn nhafodiaith unigryw sir Benfro. Diolch i Undeb yr Annibynwyr Cymraeg a Chymdeithas y Beibl am eu cefnogaeth i'r project, ac i Sian Wyn Rees am lywyddu'r cyfarfod. Bu'n dda gallu cofio'n annwyl am Lyn, gan gael cyfle i wrando ar deyrnged



*Eirlys Twigg yn sefyll wrth ymyl ei gosodiad blodau hyfryd*



*Beti a Sian yn cyfrannu at y gwasanaeth yn y babell*



*John Tudno Williams yn rhannu gair am ei gyfrol newydd*




*Mari McNeill yn siarad am waith Cymorth Cristnogol*



*Geraint Michael yn arwain yr oedfa foreol*



*John Cwmbetws yn siarad ag Archesgob Cymru, Cherry Vann*



*Yr Esgob Wyn Evans yn rhoi cyflwyniad i'r Arglwydd Rhys*




*Sian Elin Thomas yn arwain yr oedfa foreol*



*Yr Esgob Dorrien Davies yn arwain y gwasanaeth cymun yn y babell*

gan ei ffrindiau agos, Richard Owen, Siôn Meredith a Gwenan Creunant. Roedd ffrind da arall iddo, Dafydd Pritchard, wedi paratoi soned arbennig i gofio amdano, a chafwyd cyfle i glywed honno'n cael ei darllen. Trefnwyd darlith hefyd ym Mhabell y Cymdeithasau ar y dydd Gwener, pan gafwyd cyfle i glywed yr Esgob Wyn Evans yn traethu ar yr Arglwydd Rhys ac Eglwys Gadeiriol Tyddewi.

Ymhlith y pigion o ddigwyddiadau eraill a gynhaliwyd ar hyd y maes yr oedd darlith ar y bardd a'r heddychwr Waldo gan Mererid Hopwood ac eraill, a thrafodaeth ar y 'Tangnefeddwyr Heddiw' o dan nawdd y Crynwyr. Cafwyd darlith hefyd i gofio 250 mlwyddiant geni Ann Griffiths, a hynny dan arweiniad medrus E. Wyn James a darlith ar y cerddor D. Emlyn Evans gan Delyth Morgans Phillips. Mewn cyfarfod arall, lansiwyd y bedwaredd gyfrol yn y gyfres Gofal ein Gwinllan, sy'n olrhain hanes yr Eglwys yng Nghymru.

Wrth edrych yn ôl ar yr wythnos, diolchwn am y cyfle i ddathlu ein celfyddyd fel Cymry, ac am y cyfle i gymdeithasu a mwynhau'r doniau sydd gennym fel cenedl. Diolchwn hefyd am y dystiolaeth Gristnogol gan Gristnogion y fro, mewn oedfaon a sgyrsiau, ond hefyd yn y tystio tawel wrth weini te a choffi a sgwrsio â'r bobl a fentrodd i mewn atom. Diolch yn fawr i'r 150 o wirfoddolwyr o blith y gwahanol enwadau wnaeth ymroi i gynnig lletygarwch a chroeso yn ystod yr wythnos. Erbyn hyn mae'r stondin wedi ei phacio, yn barod ar gyfer troedio i'r canolbarth y flwyddyn nesaf wrth i ardal Cemaes ein croesawu am wythnos arall o eisteddfota.

*Aled Davies*




*Y criw gweithgar yn gofalu am y gegin - dros 150 ohonynt i gyd*




*Sefyll dros heddwch ar faes yr Eisteddfod*



*Alwyn Daniels gyda rhai o aelodau'r eglwysi yn arwain y gwasanaeth boreol*



*Lansio cyfrol Euros Jones Evans*




*Lansio apêl Cymorth Cristnogol*

**Cyhoeddiadau Radio Cymru, 23 Awst 2026**

*Oedfa Radio Cymru* **Sul, 23 Awst am 12:00yp**
Oedfa dan arweiniad Miriam Watling, Llundain

*Caniadaeth y Cysegr* **Sul, 23 Awst, am 7:30yb a 4:30yp**
Detholiad o emynau o dan ofal Carwyn Siddall, Llanuwchllyn

## Gair o Gydymdeimlad

Gyda thristwch dwys yn ein calonnau, rydym yn cyhoeddi marwolaeth aelod annwyl iawn o'r staff, Mrs Helen Wyn, a fu farw'n dawel ddydd Sul, 26 Gorffennaf. Bu Helen yn gweithio gyda Chorfforaeth Undeb Bedyddwyr Cymru ac yn gwasanaethu fel aelod gwerthfawr o'r tîm am flynyddoedd lawer. Byddwn yn ei cholli'n fawr. Roedd ei charedigrwydd a'i gofal yn amlwg i bawb yn ogystal â'i ffydd Gristnogol, a roddodd iddi'r nerth i wynebu ei salwch. Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf ag Eirian a Fflur a'r teulu ehangach yn eu profedigaeth, gan eu sicrhau o'n cariad a'n gweddïau ar yr adeg anodd hon.

*Simeon Baker, Ysgrifennydd Cyffredinol Undeb Bedyddwyr Cymru*

# ‘O am gael ffydd i edrych’

**allan o *Emynau’r Ffydd* gan Huw Powell-Davies**

### *Caneuon Ffydd*: Rhif 189

O am gael ffydd i edrych
gyda’r angylion fry
i drefn yr iachawdwriaeth,
dirgelwch ynddi sy:
dwy natur mewn un person
yn anwahanol mwy,
mewn purdeb heb gymysgu
yn eu perffeithrwydd hwy.

O f’enaid, gwêl addasrwydd
y person dwyfol hwn,
dy fywyd mentra arno
a bwrw arno’th bwn;
mae’n ddyn i gydymdeimlo
â’th holl wendidau i gyd,
mae’n Dduw i gario’r orsedd
ar ddiafol, cnawd a byd.

ANN GRIFFITHS, 1776–1805

**MYFYRDOD**

Gofynnodd darlithydd athroniaeth yn Rhydychen ryw dro wrth dderbyn gwaith yn cynnwys dyfyniad o’r emyn hwn: ‘dwy natur mewn un person...’ wedi ei drosi i’r Saesneg, pa feddwl athronyddol mawr oedd wedi llunio gosodiad mor aruchel a syml? Atebodd y myfyriwr mai Ann Griffiths o Ddolwar Fach oedd piau ef. Ac onid yw hi’n un o emynwyr mawr y byd? Cawn eto ei hawydd cyfriniol i ymgolli yn Nuw ar ddechrau ei phennill cyntaf. ‘Yn ôl eich ffydd boed i chwi,’ meddai Iesu wrth y ddau ddyn dall ym Mathew 9:29, a chawsant weld. Os oedd angen ffydd i gael agor eu llygaid naturiol, yna gymaint mwy o ffydd sydd ei angen arnom ni i ‘edrych … i drefn yr iachawdwriaeth’; mae hi’n rhan o ddirgelwch Duw y mae’r angylion yn rhyfeddu wrth syllu arni. Dirgelwch hefyd ydy person Iesu Grist – y ddwy natur mewn un person sydd yn sail i drefn yr iachawdwriaeth.

Perthyn i’r Eglwys Wladol oedd Ann cyn ei thröedigaeth, a byddent ar y gwyliau pwysig yn adrodd yno Gredo Athanasius sydd â rhannau ohono’n debyg i ail hanner y pennill cyntaf ganddi yma. Gall yr Arglwydd ddwyn pethau y credem ein bod wedi eu hanghofio yn ôl i’n cof os bydd hynny’n ein helpu ni i gredu ynddo. ‘Cofiodd ei ddisgyblion iddo ddweud hyn, a chredasant yr Ysgrythur, a’r gair yr oedd Iesu wedi ei lefaru’ a ddysgwn ni yn Ioan 2:22.

Ond mae’r geiriau hyn am y ‘ddwy natur’ yn debyg i eiriau Dewrgalon wrth Cristiana a’i chwmni yn *Taith y Pererin* ac yn adleisio Diffiniad Chalcedon ym 451 o Berson Crist hefyd. Beth bynnag fu’n ddylanwad ar Ann i lunio’r emyn hwn yn ei gyfanrwydd, mae’n amlwg bod ganddi ddirnadaeth eglur iawn o Athrawiaethau Gras ac nid yw’n cael dim anhawster, yn wir mae’n bencampwraig ar eu hegluro yn ei meddwl ei hun a rhoi mynegiant croyw iawn iddynt mewn barddoniaeth. O ddeall pwy yw Iesu a rhoi mynegiant i hynny, fe sylweddolodd nad oedd un mwy addas nag ef ar gyfer ei henaid mewn bod: ‘O f’enaid, gwêl addasrwydd y person dwyfol hwn.’ Sonnir mai dyma’r pennill cyntaf o’r fath iddi’i lunio a hynny ar y ffordd adref o’r seiat fach ym Mhontrobert.

Mae lle gennym oll yn ein heneidiau i Grist, lle neilltuol, nad oes neb a all ei lenwi’n iawn ond ef ei hun; o’i gael i lenwi’n gwbl addas y lle hwnnw ar ei gyfer a mentro’n bywyd arno, fe all wedyn, yn ei ddwy natur, gydymdeimlo â’n gwendid a chario’r orsedd ar ein holl elynion. Oedwn ennyd uwch yr emyn hwn i ddotio ar gyfuniad y dweud cwbl groyw a’r profiad byw a roddodd fod iddo.

**GWEDDI**

Ni allaf ond adleisio geiriau’r emyn, fy Nhad, a sylwi ar ‘addasrwydd y person dwyfol hwn’, yn ‘ddyn i gydymdeimlo’ ac yn ‘Dduw i gario’r orsedd’. ‘O am gael ffydd i edrych’ a gweld y dirgelwch yma’n eglur yn Iesu Grist. Pob clod a gogoniant fyddo i’th enw di. Amen.


**MENTER IEUENCTID CRISTNOGOL SIR GAR (MIC)**

**Mae MIC yn chwilio am Swyddog Datblygu:**
**Plant ac Ieuenctid MIC Sir Gaerfyrddin**

Tymor: 3 blynedd
Gellir ymestyn y cyfnod am 3 blynedd arall trwy gytundeb, ac yn ddibynnol ar gyllid digonol.
Amser: 14 awr amser hyblyg.
Cyflog: Graddfa £26,000 - £28,500, ‘pro rata’ ynghyd â Chynllun Pensiwn. (£10,400 - £11,400)

Am ddisgrifiad swydd a ffurflen gais, cysylltwch â Peter Harries: 01558 823075
E-bost p.harries70@outlook.com

Mae’r swydd yn seiliedig ar ddatgeliad DBS boddhaol a dau eirda.
Mae gofyniad galwedigaethol Cristnogol ac iaith Gymraeg yn berthnasol ar gyfer y swydd hon.

Cewch wybodaeth am waith MIC ar ein gwefan;
www.micsirgar.org

Dyddiad cau: Medi 24ain, 2026.



**Anfonwch eich cyfraniadau at y golygyddion:** Aled Davies: aled@ysgolsul.com
Huw Powell-Davies: huw@cennad.cymru

Tîm Golygyddol: Aled Davies, Huw Powell-Davies a Marian Beech Hughes (golygydd iaith)

Gwefan: www.cennad.cymru | Facebook: CennadCymru | X: @CennadCymru

Cyhoeddir *Cenn@d* ar y cyd gan Eglwys Bresbyteraidd Cymru ac Undeb Bedyddwyr Cymru.
*Oni nodir yn wahanol, nid yw barn cyfranwyr **Cenn@d** yn cynrychioli barn swyddogol yr enwadau hyn.*


Os ydych yn poeni am unigolyn neu sefyllfa ac angen cyngor diogelu, cysylltwch â’r Panel Diogelu Cydenwadol **www.panel.cymru ar 01745 817584 neu 07957 510346** yn ystod oriau swyddfa neu **Thirtyone:eight ar 0303 0031111** am gyngor tu allan i oriau swyddfa.